

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	12 Tachwedd 2020
TEITL:	Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Ymgynghorydd Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwynir adroddiad cryno ar ddatblygiadau ym maes Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Safonau, Adroddiad Sicrwydd blynyddol y Comisiynydd a diweddariad ar fwriad i adolygu'r polisi iaith. Angen cymeradwyaeth ffurfiol hefyd i Adroddiad Blynyddol y Safonau.

Cefndir

Cyflwynir yr adroddiad hwn i roi diweddariad bras ar waith sydd wedi bod yn mynd rhagddo dros y misoedd diwethaf yng nghyd-destun y Safonau Iaith a'n dyletswyddau adrodd.

Yn gyffredinol, rydym yn dal i lwyddo i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ond mae nifer o feysydd o bryder yn codi yn aml hefyd, ac mae themâu pendant yn codi drwy'r adroddiadau blynyddol, sydd yn rhoi sail i ni weithredu arno dros y misoedd i ddod.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gysylltu gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i drafod rhai materion o bwys a phryder, megis y rhwystrau sydd yna wrth i ni gomisiynu systemau ac apiau allanol. Drwy gael sgwrs agored, rydym yn gobeithio gallu datblygu dealltwriaeth rhyngom am yr hyn sydd yn bosib, a hefyd i gael cefnogaeth ganddynt i ddylanwadu ar gyrff allanol sydd ar brydiau yn anwybodus am statws yr iaith a gofynion y Safonau yng Nghymru.

1. Adroddiad Blynyddol y Safonau

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol

erbyn **30 Mehefin** bob blwyddyn sy'n dangos sut y mae'r corff wedi sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau sydd wedi eu gosod ar y Cyngor.

1.2 Mae gofyn i ni adrodd ar nifer o bethau, gan gynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau sgiliau iaith sydd yn cael eu cynnal, nifer y swyddi sydd wedi eu hysbysebu lle'r oedd gofyn am sgiliau yn y Gymraeg, nifer y digwyddiadau hyfforddiant cyfrwng Gymraeg sydd wedi eu cynnig i staff a nifer y cwynion sydd wedi eu derbyn gan y sefydliad yn erbyn y Safonau.

1.3 Mae hefyd yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw waith datblygol ac enghreifftiau o arfer da wrth weithredu'r Safonau a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Gymraeg i drigolion y sir.

1.4 Mae angen i'r Pwyllgor Iaith gymeradwyo'r adroddiad hwn yn ffurfiol a nodi unrhyw faterion yr hoffent wybodaeth neu drafodaeth bellach arnynt.

1.5 Gellir gweld yr adroddiad llawn drwy ddilyn y linc yma:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-iaith-Gymraeg/Adroddiad-Blynyddol-Safonau-Iaith-Gymraeg-Cyngor-Gwynedd-2019-2020.pdf>

1.6 Rhoir crynodeb isod o brif bwyntiau'r adroddiad:

- **Heriau:**

Un o'r heriau mwyaf sydd yn ein hwynebu yw sut ydym yn addasu i ddefnyddio mwy o dechnoleg ac i sicrhau nid yn unig y dewis iaith a'r cynnig rhagweithiol, ond sut rydym yn gallu annog y trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gwasanaethau.

- **Meysydd datblygol:**

Adroddwyd ar waith datblygol yn y meysydd canlynol:

- **Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl**
- **Defnydd o dechnoleg a gwasanaethau ar-lein**
- **Asesu effaith**
- **Dynodiadau iaith – mapio lefelau iaith swyddi a sgiliau staff**

- **Adroddiad Sgiliau:**

Rhodddwyd darlun cyffredinol o sefyllfa'r Cyngor o ran sgiliau iaith ei staff. Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, mae cryn dipyn o waith wedi bod yn cael ei wneud yn y maes hwn gyda phrosiect y Dynodiadau Iaith, ac roeddem yn adrodd am y tro cyntaf yn defnyddio'r data sydd yn cael ei gasglu drwy system newydd y Dynodiadau.

Roedd y darlun cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn edrych fel a ganlyn:

Nifer yr aelodau staff (nifer pobl ar gyflogres y Cyngor), heb gynnwys staff ysgolion	3,677
Nifer aelodau staff a aseswyd hyd yma	3034
Nifer sydd yn cyrraedd gofynion y swydd o'r rhai a aseswyd	2765 (91.1%)
Nifer nad ydynt yn cwrdd a gofynion y swydd	269 (8.9%)
Nifer aelodau staff a aseswyd i fod heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (holl adrannau'r Cyngor)	4

2. Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd Gymraeg 2019-20 - Cau'r Bwlch

- 2.1 Bob blwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sydd yn ganlyniad gwaith ymchwil, arsylwi a holi grwpiau ffocws gan ei swyddogion, ac sy'n dangos eu canfyddiadau am lwyddiant sefydliadau i weithredu a chydymffurfio gyda'r Safonau.
- 2.2 Bydd y Comisiynydd yn dod i gasgliadau am lwyddiannau neu fethiannau i gydymffurfio gyda'r Safonau ar sail sawl peth:
- i) Canfyddiadau'r Comisiynydd yn dilyn gwaith monitro cwynion ac achosion penodol o fethiant i gydymffurfio.
 - ii) Arolygon barn ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd mewn grwpiau ffocws
 - iii) Gwaith arsylwi, cyfweiliadau a cheisiadau gwybodaeth a thystiolaeth ar destunau penodol gyda sefydliadau
- 2.3 Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio yn benodol at sefydliadau unigol - ar wahân i pan fydd yn cyfeirio at arferion da - ond yn hytrach yn cynnig darlun cyffredinol o le mae sefydliadau arni o ran gweithredu'r safonau a'r hyn sydd angen gwella.
- 2.4 Erbyn hyn, mae'n debyg bod themâu cyson yn codi yn adroddiadau'r Comisiynydd, a hynny yn ein gorfodi i feddwl o ddifrif a ydym ni'n gwneud yr oll y dylem ac yr oll y gallem ei wneud mewn rhai meysydd. Mae annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg, er enghraifft, bellach yn thema gyson gan y Comisiynydd, yn ogystal â threfniadau monitro mewnol a phwysigrwydd y safonau asesu effaith, a sut yr ydym yn ystyried effaith penderfyniadau'r Cyngor ar y Gymraeg yn y cymunedau.
- 2.5 Cafodd adroddiad sicrwydd y Comisiynydd ar gyfer 2019-20, dan y teitl **Cau'r Bwlch**, ei lansio ym mis Medi. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad o berfformiad cyffredinol sefydliadau dan 4 teitl: **Darparu a hybu gwasanaethau; Trefniadau cydymffurfio; Capasiti'r gweithlu; a Hybu'r Gymraeg**. Gwelir bod pwyslais mawr yn cael ei roi ar yr angen i weithredu mewn dau faes yn benodol dros y misoedd nesaf, sef sut mae sefydliadau yn mynd ati i:

- Asesu Effaith, a;
- Creu shiftt yn iaith y defnyddwyr gwasanaethau

1.6 Cyfeiriwyd hefyd at y **Strategaethau Hybu**, gyda'r adroddiad yn nodi nad yw yn glir i'r Comisiynydd faint o weithgareddau newydd sydd yn cael eu cynnal o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaethau hybu – sef gweithgareddau sydd y tu hwnt i wasanaethau dyddiol y Cyngor ac sydd yn mynd ati yn fwriadol i hybu defnydd o'r Gymraeg. Cafwyd beirniadaeth hefyd nad oes cyllid ac adnoddau digonol i'w weld yn cael ei glustnodi gan sefydliadau ar gyfer gweithredu'r strategaethau a'r cynlluniau hyn. Cafwyd neges glir bod angen i sefydliadau ystyried hyn yn ofalus wrth adolygu eu strategaethau ar gyfer 2021-22 (yn ddiweddarach ar gyfer Gwynedd).

3. Adolygu'r Polisi Iaith

3.1 Yn gynharach eleni dechreuwyd edrych ar adolygiadau posib i'r polisi iaith. Cymerwyd y cam hwn am fod teimlad bod newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio mewn ymateb i osod y Safonau Iaith. Roedd teimlad nad yw rhai rhannau o'r Polisi yn ddigon cadarn ac eglur ac nad yw yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd. Nid oes cymalau penodol, er enghraifft yn delio gyda'r modd y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn systemau TG y Cyngor.

3.2 Mae rhai newidiadau yn cael eu cynnig felly fel ffordd o roi eglurder ar faterion lle mae cwynion wedi eu derbyn, neu lle rydym yn sylweddoli bod aneglurder sydd yn arwain at anghysondeb.

3.3 Mae'r newidiadau a gynnigir wedi eu rhannu yn ddau gategori –

Newidiadau gweinyddol; sydd yn golygu man newidiadau i olygu geiriad, er mwyn gwneud gofynion yn fwy eglur, neu ychwanegu cymalau sydd yn adlewyrchu meysydd gweithredu nad ydynt yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd, ac nad yw yn golygu unrhyw newid mawr o ran yr egwyddor gweithredu.

Newidiadau mawr / egwyddor; sydd yn golygu bod angen trafod a chael cytundeb ar y modd yr ydym yn gweithredu mewn rhai cyd-destunau. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd sydd ddim o reidrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Safonau, neu lle mae cyfleoedd i ni fel Cyngor fod yn gosod egwyddorion o'r newydd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd pob cyfle i hybu'r Gymraeg.

3.4 Byddwn yn cyflwyno eitem ar ddiwygiadau posib i'r Polisi yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Iaith.

4. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, gan gynnig unrhyw sylwadau perthnasol neu argymhellion o ran blaenoriaethu gwaith.